**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Sian Parri

Trwy e-bost: sianpencraig@gmail.com

11/02/2025

Annwyl Sian

**Deddf Tai 1996: ystyried y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau yn ymwneud â gosod tai a lleoli tenantiaid.**

Yn dilyn ymdrin â'ch ymholiad yn ymwneud â gallu awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i roi ystyriaeth i'r Gymraeg wrth wneud penderfyniadau yn ymwneud â gosod tai a lleoli tenantiaid, penderfynodd y Comisiynydd geisio cyngor cyfreithiol ar y mater.

Fel yr eglurais eisoes mewn e-bost dyddiedig 07/02/2025, fel mater o bolisi, nid ydym yn rhannu copïau o geisiadau am, a chyngor cyfreithiol a dderbynnir. Mae hyn ar sail y cysyniad o fraint cyfreithiol sy'n gwarchod cyfrinachedd y cyfathrebu rhyngom fel cleient a'n cyfreithwyr.

Fodd bynnag, dyma ddarparu crynodeb o'r cyngor a dderbyniwyd ac o'r sefyllfa gyfreithiol yn ôl ein dealltwriaeth ni.

1. Mae Adran 167 o Ddeddf Tai 1996 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i osod tai yn unol â chynllun sy'n rhoi "blaenoriaeth resymol" i'r categorïau canlynol o bobl:

    a) *Y di-gartref*
    b) *pobl y mae unrhyw ddyletswydd yn ddyledus iddynt gan awdurdod tai lleol o dan adran 66, 73 neu 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014;*
    c) *pobl sy'n meddiannu tai afiach neu orlawn neu fel arall yn byw mewn amodau tai anfoddhaol;*
    d) *pobl sydd angen symud am resymau meddygol neu les; a*

**Comisiynydd y Gymraeg**
Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Ffordd Balaclafa
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**

comisiynyddygymraeg.cymru

**Welsh Language Commissioner**
Unit 2, Block C
Victoria Dock
Balaclafa Way
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
**Correspondence welcomed in Welsh and English**

welshlanguagecommissioner.wales

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

e) *pobl sydd angen symud i ardal benodol yn ardal yr awdurdod, lle byddai methu â bodloni'r angen hwnnw'n achosi caledi (iddyn nhw eu hunain neu i eraill).*

2. Er nad yw gallu i siarad Cymraeg wedi'i gynnwys yn y categorïau hyn, nid yw'r categorïau'n restrau caeedig, ac felly gall ystyriaethau iaith Gymraeg hefyd fod yn berthnasol. Yn ogystal, gall cynllun gosod ystyried "cysylltiad lleol," a ddiffinnir gan adran 81 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 fel a ganlyn:

   *"(2) Mae gan berson gysylltiad lleol ag ardal awdurdod tai lleol yng Nghymru neu yn Lloegr os oes gan y person gysylltiad â hi –*
   *(a) gan fod y person yn preswylio yno fel arfer, neu wedi gwneud hynny yn y gorffennol, a bod y preswyliad hwnnw o ddewis y person ei hun,*
   *(b) gan fod y person yn cael ei gyflogi yno,*
   *(c) o ganlyniad i gysylltiadau teuluol, neu*
   *(d) o ganlyniad i amgylchiadau neilltuol."*

3. Mae'r cynllun gosod yn gallu ystyried ffactorau eraill megis sgiliau ieithyddol, cyn belled â bod blaenoriaeth resymol yn cael ei roi i'r categorïau yn adran 167(2). Cyfeiria'r cyngor at benderfyniad arwyddocaol gan lys Tŷ'r Arglwyddi yn 2009 ar ddehongliad cywir y ddyletswydd i roi "blaenoriaeth resymol" i bobl benodol yn y cynllun gosod tai: ***R (Ahmad) v Newham LBC*** [2009]. Yn yr achos hwn, gofynnwyd i'r llys ddyfarnu a oedd y cynllun yn anghyfreithlon am ei fod yn gosod cyfran cymharol fechan o stoc tai cymdeithasol y Cyngor i gategori o bobl (yn benodol, pobl oedd yn dymuno cael eu trosglwyddo o'u llety presennol) nad oedd o fewn unrhyw un o'r categorïau "blaenoriaeth resymol" yn yr adran sy'n cyfateb heddiw i adran 166A(3), Deddf 1996. Penderfynodd y llys nad oedd hyn yn anghyfreithlon.

4. Mae Adran 167(2A) yn nodi y gellir ystyried ffactorau ychwanegol megis "cysylltiad lleol" ond nid yw'n cyfyngu'r ffactorau y gellir eu hystyried wrth bennu blaenoriaethau pellach. Nid yw adran 167(2A) yn rheoli ystyriaethau megis sgiliau ieithyddol a all awdurdod tai gynnwys yn ei gynllun gosod, cyn belled â bod blaenoriaeth resymol yn cael ei rhoi i'r categorïau yn adran 167(2).

5. Nid yw gwahaniaethu ar sail iaith neu allu ieithyddol yn wahaniaethu uniongyrchol o dan Deddf Cydraddoldeb 2010 gan nad yw iaith yn un o'r "nodweddion gwarchodedig". Serch hynny, gallai gwahaniaethu ar sail gallu i siarad Cymraeg fod yn wahaniaethu anuniongyrchol gan ei fod yn effeithio'n anghymesur ar bobl nad ydynt o dras Gymreig. Mae adran 19(2)(d) o'r Ddeddf Cydraddoldeb yn caniatáu gwahaniaethu anuniongyrchol os yw'n fodd cymesur o gyflawni nod dilys, megis gwarchod a hyrwyddo hyfywedd y Gymraeg. Byddai hyn yn enghraifft o wahaniaethu anuniongyrchol cymesur sy'n gyfreithlon.

Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Rydym yn hyderus bod y wybodaeth uchod yn eich cynorthwyo ac yn cadarnhau dealltwriaeth gyfreithiol y Comisiynydd yn seiliedig ar y cyngor a dderbyniwyd. Nodwn ein bwriad i ohebu â Chyngor Gwynedd a Chymdeithas Tai Adra i'w hysbysu am yr ymholiadau diweddar a ddaeth i'n sylw, gan gadarnhau ein dealltwriaeth gyfreithiol yn unol â'r cyngor a dderbyniwyd.

Yr eiddoch yn gywir,

**Dylan Jones**
Ar ran Comisiynydd y Gymraeg